**GWYBODAETH RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWR**

## Côd Ymddygiad Ymddiriedolwyr a Sylwedyddion a chynrychiolwyr o Sefydliadau sy'n Sylwedyddion

### Diben

Diben y côd ymddygiad hwn yw darparu canllawiau clir i Ymddiriedolwyr a Sylwedyddion ynghylch safon eu hymddygiad, eu cyfrifoldebau ac arfer gorau wrth gyflawni eu dyletswyddau i Chwarae Cymru.

Tra'n gwasanaethu yn rhinwedd eu swydd fel Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru, bydd raid i aelodau o'r bwrdd lunio barn yn unol â buddiannau gorau Chwarae Cymru yn unig, fel a ddiffiniwyd gan y Comisiwn Elusennau. Cydnabyddir y gall gofyniad o'r fath amlygu buddiannau croes i rai pobl, ac o'r herwydd rhoddwyd statws Sylwedydd i nifer o sefydliadau cenedlaethol. Caiff Aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd fel Sylwedyddion gymryd rhan ym mhob agwedd o fusnes Bwrdd Ymddiriedolwyr Chwarae Cymru, ar wahân i pan fo angen i benderfyniadau gael eu gwneud trwy bleidlais. Ni fydd pleidlais gan Sylwedyddion.

### Cyffredinol

- Dylai Ymddiriedolwyr a Sylwedyddion feddu ar ddealltwriaeth dda o, a chydymdeimlo â, nodau ac amcanion Chwarae Cymru a gweithredu'n unol â'r ddogfen lywodraethol bob amser

- Dylai Ymddiriedolwyr a Sylwedyddion ymgyfarwyddo ag 'Egwyddorion Nolan', a gweithredu'n unol â'r rhain

- Dylai Ymddiriedolwyr weithredu a gwneud penderfyniadau er budd gorau Chwarae Cymru, ei buddiolwyr presennol ac yn y dyfodol a bod yn ymwybodol o faterion sy'n ymwneud yn benodol â'r sector ac allai effeithio ar dwf presennol Chwarae Cymru, a'i dwf i'r dyfodol, a'i berthnasedd i gymdeithas fodern

- Dylai pob Ymddiriedolwr a Sylwedydd weithredu – a chael eu gweld yn gweithredu – er budd gorau Chwarae Cymru ac nid er budd personol i'w hunain

- Ble fo angen cymorth proffesiynol ar Ymddiriedolwyr a Sylwedyddion i allu llunio'r penderfyniad mwyaf addas ar gyfer Chwarae Cymru, dylid ceisio ac ystyried y cymorth hwnnw'n ofalus

- Ni ddylai Ymddiriedolwyr dderbyn unrhyw fudd ariannol neu fel arall, sydd heb ei awdurdodi'n uniongyrchol gan y ddogfen lywodraethol. Ni ddylai Ymddiriedolwyr a Sylwedyddion ddefnyddio eu dylanwad er mwyn ennill unrhyw ffafriaeth i'w hunain neu i'w teulu

- Mae Ymddiriedolwyr yn atebol, ar y cyd ac yn unigol, am eu penderfyniadau, felly dylid llunio penderfyniadau ar y cyd a'u cyfleu i'r staff, yr aelodau ac i arianwyr mewn modd unedig

- Mae Ymddiriedolwyr yn atebol i'r aelodau am eu gweithredoedd, ac o'r herwydd dylai materion llywodraethu a gwneud penderfyniadau fod mor agored â phosibl, ar wahân i pan fo cyfrinachedd yn angenrheidiol

- Dylai Ymddiriedolwyr a Sylwedyddion fod yn barod i dreulio amser digonol yn darllen papurau ac yn paratoi ar gyfer cyfarfodydd y bwrdd. Bydd lefel presenoldeb o 50% mewn cyfarfodydd yn ofynnol o'r Ymddiriedolwyr a'r Sylwedyddion er mwyn gwneud yn siŵr y gellir sicrhau a chynnal lefel arfer gorau o lywodraethu

- Os y bydd Ymddiriedolwr yn teimlo eu bod angen arweiniad neu hyfforddiant pellach yn eu rôl, bydd yn ddyletswydd arnynt i hysbysu Cyfarwyddwr Chwarae Cymru a mynd ati'n weithredol i ddatblygu agweddau ar gyfer hyfforddiant newydd ar sail unigol ac fel grŵp

- Dylai unrhyw wybodaeth o natur cyfrinachol aros yn gyfrinachol y tu hwnt i gyffiniau'r cyfarfod Ymddiriedolwyr